PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 377 | MAWRTH 2015


Teithio De America
t.11


Cerddor ifanc
t.9


Gwobrau cyntaf t.8



Llongyfarchiadau i staff a chyfeillion Garej Ty Mawr am godi £2100 tuag at Nyrsus McMillan yn ddiweddar. Codwyd £1,400 ar y ddiwrnod a gyda y nawdd am y car a'r arian a gafwyd trwy Justgiving codwyd cyfanswm o £2,100



Bu'r efeilliaid Heddwyn a Dyfri ap Ioan Cunningham yn cystadlu ar y Ddawns Werin Unigol i Fechgyn Bl 9 ac iau yn yr Eisteddfod Gylch. Daeth Dyfri (ar y dde) yn gyntaf ac ef fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Ddawns Ranbarthol yn Felin-fach ar Fawrth 24ain. Dymuniadau gorau iddo!




Maria a John yn cau drws y siop am y tro olaf! Dymuniadau gorau iddynt ar eu hymddeoliad. Llun: Peter Henley




Hollie ac Ifan yn dathlu Gŵyl Ddewi. Gweler t.10

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ebrill
**Deunydd i law: Ebrill 10    Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 22**

**MAWRTH 20** Nos Wener Tudur Owen: Pechu yn Theatr y Werin am 7.45.

**MAWRTH 21** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yng Ngwesty'r Belle Vue, Aberystwyth; gwestai: Richard Morgan.

**MAWRTH 27** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Pasg.

**MAWRTH 27** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30 yng nghwmni Mr Hywel Wyn Edwards, yr Wyddgrug. Sylwer ar y newid dyddiad.

**MAWRTH 27** Nos Wener Clwb nos Wener Tal-y-bont – Yr Hittites yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00.

**MAWRTH 28** Nos Sadwrn Cofiwch droi y clociau ymlaen!

**MAWRTH 28** Dydd Sadwrn Taith gerdded yn canolbwyntio ar enwau lleoedd ardal llynnoedd Trefeurig dan arweiniad Angharad Fychan. Cyfarfod wrth Lyn Pantyrebolion (Pen-dam) am 10.30yb. Cymdeithas Edward Llwyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

**EBRILL 4** Pnawn Sadwrn Te Pasg Eglwys Dewi Sant yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 1.30 – 3.30.

**EBRILL 11** Nos Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno Pum cynnig i Gymro yn Theatr y Werin am 7.30.

**EBRILL 14** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r Pasg.

**EBRILL 17** Nos Wener Gig: Brigyn yn Drwm LLGC am 7.30 Mynediad drwy docyn: £7.

**EBRILL 24-25** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.

**MAI 1** Nos Wener Cwis, Caws a Gwin yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00.

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**
**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

### Rhoddion
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Cymuned Trefeurig £250
Cyngor Cymuned y Borth £100

### Camera'r Tincer
Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Telerau hysbysebu
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


ytincer@googlemail.com

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2015**

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror**

**£25** (Rhif 38) D.M.Stanleigh, Dolfawr, Cwmrheidol

**£15** (Rhif 104) Y Parchg Judith Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch

**£10** (Rhif 103) Bryn Roberts, Cilgwyn, 5 Brynmeillion, Bow Street

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Chwefror 18.**

### Oriau Agor Newydd yn Amgueddfa Ceredigion

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, penderfynwyd agor Amgueddfa Ceredigion ar amseroedd mwy cyfleus i bobl lleol ac ymwelwyr i Aberystwyth. O 28 Mawrth, dyma oriau agor newydd Amgueddfa Ceredigion:

**Dydd Mawrth i ddydd Sadwrn**: 10:30yb – 4yh
**Dydd Sul**: 12yh – 4yh

Yn debyg i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, bydd yr amgueddfa ar gau ar ddydd Llun.

Dywedodd Carrie Canham, Curadur yn Amgueddfa Ceredigion: "Roeddem yn teimlo'n gryf y dylem ymateb mor gadarnhaol â phosib i ganlyniadau ein ymgynghoriad cyhoeddus. Dangosodd hyn yn glir bod pobl lleol ac ymwelwyr i'r ardal eisiau ymweld â'r amgueddfa ar ddydd Sul. Mae gennym gasgliad hyfryd o eitemau hanesyddol yn ein h'arddangosfa, yn ogystal â rhaglen fywiog o arddangosfeydd dros dro a nifer o ddigwyddiadau sy'n denu pobl i'r ardal trwy gydol y flwyddyn. Rwy'n falch y bydd mwy o bobl yn gallu eu mwynhau."

O ganlyniad i'r ymgynghoriadau cyhoeddus parhaus, mae'r amgueddfa ar y funud yn datblygu mwy o gynlluniau, gyda chefnogaeth y Gronfa Loteri Treftadaeth, i sicrhau dyfodol ddisglair a bywiog ar gyfer yr atyniad addysgiadol poblogaidd hwn.

Ychwanegodd Carrie: "Rydym eisiau hysbysu pobl o hanes Ceredigion ond hefyd i ymestyn i gynulleidfa ehangach gydag oriau ymweld mwy cyfleus, mynedfa mwy deniadol, caffi a siop. Mae'r amgueddfa am ddim ac yn bodoli er mwyn diddori a diddanu."

## 30 MLYNEDD YN ÔL

**Wil Evans y goldeidwad**

Erbyn hyn mae William Evans, Llwyniorwerth Isaf, sy'n 16 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Pen-glais, wedi arwyddo gyda th îm Ieuenctid Pêl-droed Chelsea. Bu'n chwarae i'r tîm yn ystod y Nadolig ond nid yw y tywydd wedi caniatàu gêmau yn ddiweddar. Pob lwc iddo yn y dyfodol! (O'r Tincer Mawrth 1985)

Cafwyd ar ddeall fod William Evans yn byw a gweithio yn Llundain ers rhai blynyddoedd. Bu'n chwarae i dîm ieuenctid Chelsea am rhyw bedwar tymor.



Annwyl Ddarllenwyr,
Mae Cyngor Sir Ceredigion am glywed eich barn ar ddyfodol y ddarpariaeth yng nghartrefi preswyl y Sir. Manteisiwch ar y cyfle i roi sylwadau ar y cynigion gan ein bod yn awyddus i glywed eich barn a byddwn yn ystyried unrhyw bryderon neu awgrymiadau sydd gennych. Mae'r cartrefi preswyl yma yn rhan o'r ymgynghoriad:

- Bodlondeb, Aberystwyth
- Tregerddan, Bow Street
- Bryntirion, Tregaron
- Min-y-Môr, Aberaeron
- Awel Deg, Llandysul
- Hafan Deg, Llanbedr Pont Steffan
- Yr Hafod, Aberteifi

Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael drwy gysylltu â 01545 574000 neu ar-lein wrth ymweld â'r dudalen Ymgynghoriadau ar www.ceredigion.gov.uk
Mae'r cyfnod ymgynghori wedi ei ymestyn hyd 30 Ebrill 2015.
Diolch yn fawr, Siwan

## Cronfa Eleri 2014

Nifer ceisiadau: 15
Nifer a gefnogwyd: 11
Cais uchaf: £9,235
Cais isaf: £438
Cefnogaeth uchaf: £5,235
Cefnogaeth isaf: £425
Cyfanswm y gronfa: £19,319

**Gweithgareddau a gefnogwyd:**
Clwb ar ôl ysgol, Tal-y-bont; Clwb Pêl-droed Ieuenctid, Tal-y-bont; Neuadd Llainfach, Taliesin; Ysgol Rhydypennau; Clwb Camera Aberystwyth; Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch; Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn; Parc Chwarae Bont-goch; Treftadaeth Llandre; Cwmni Cletwr; Cylch Meithrin Tal-y-bont.

Gweler safle we'r gronfa:
cronfaeleri.cymru

# GOGINAN

### Llwyddiant

Braf oedd clywed am lwyddiant cwmni Steve Baxter, Oakdale gynt, ar gael gwobr aur am gynllunio Twb Poeth awyr agored ar gyfer creu awyrgylch i deuluoedd i fwynhau ac ymlacio ynddi. Gan fod hon yn wobr dros Brydain mae yn creu cryn falchder fod yna gwmni o'n hardal ni yn dod i'r brig.

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Dai Parry, Goedwig gynt, yn 72 oed yn ysbyty Telford ar ôl cyfnod byr o salwch. Adnabyddir ef yn yr ardal am ei waith fel contractiwr amaethyddol a fu yn gyfrifol am greu llawer o 'ddaear las ar wyneb anial dir' yn yr ardal. Cymdeimlwn â Sian a Mathew a'u teuluoedd yn eu colled.

### Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Nos Wener 6ed o Fawrth ar noson hyfryd o Wanwyn, yng Nghapel Y Dyffryn cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi y Chwiorydd. Paratowyd y rhaglen eleni gan chwiorydd Cristnogol y Bahamas. Testun y rhaglen oedd cwestiwn Iesu Grist i'w ddisgyblion. "A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi"

Estynnodd arweinydd y noson Mrs Anne Mason Davies groeso cynnes i Mrs Alban, Llanilar, i'n hannerch. Cafwyd anerchiad arbennig ganddi fel arfer – gan bwysleisio fod cwestiwn Crist i'w ddisgyblion yn gwestiwn i ninnau hefyd ac yn gofyn am ateb a ydym ni yn deall a derbyn yr hyn a wnaeth Iesu dros bob un ohonom ni ar groes Calfaria.

Cymerwyd rhan gan Chwiorydd o Eglwys Capel Bangor, Capeli Llwyn-y-groes, Pen-llwyn a Dyffryn.

Daeth noson fendithiol i ben drwy gymdeithasu uwchben paned a chacen wedi ei drefnu gan chwiorydd Y Dyffryn.

### Gwellhad Buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Arthur Williams, Penrhiwlas, sydd yn yr ysbyty fel mae'r Tincer yn mynd i'r wasg.

Hefyd i Les O'Leary, Lovedon House, a gafodd ddamwain anffodus a thorri ei freichie.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Nia a Sian a'u teuluoedd yng Nghaerdydd ar farwolaeth Tom Jones – gynt o Gwmbrwyno – ar Fawrth 10fed.



Tîm Pêl-droed Goginan 1970 – Trist gweld fod saith yn y llun wedi ein gadael – yr enwau mewn bold.
Rhes ôl: **Gwyn(for) Roberts**, Dai Jones, **Meirion Davies**, Mike Ingram, Ambrose Roberts, **Dai Parry**, **Handel Rees**, Colin Baxter, Idloes Roberts, a **Haydn Fleming**.
Rhes flaen: **Mr W Davies**, John Jones, Gerwyn Jones, Ivor Pugh(capten) Geraint Jones, Arwyn Roberts, **Defi Huw Evans** a'r mascot bach oedd Mathew Parry.

# BOW STREET

**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**www.capelygarn.org/**

*Mawrth*
**22** John Roberts
**29** Goronwy P. Owen

*Ebrill*
**5** Oedfa'r Ofalaeth y Pasg
**12** Adrian P. Williams
**19** Bugail
**26** Lyndon Lloyd

**Noddfa**

*Mawrth*
**22** 10.00 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn Soar, Llanbadarn Gweinidog
**29** 2.00 Gweinidog Cymundeb

*Ebrill*
**5** Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Talybont, am 10.00 a 2.00
**12** Oedfa am 10.00. Trefn Lleol.
**19** Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.
**26** Oedfa am 5.00. Gweinidog.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Chwefror gan ein llywydd Mrs Mary Thomas a chyfeiriodd at ymddiheuriadau am absenoldeb gan nifer o'r aelodau. Cydymdeimlodd â Meinir sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar a llongyfarchodd Lisa ac Emyr ar eu dathliad. Yn dilyn trafod materion rhanbarthol cyflwynodd Mary y wraig wadd am y noson - sef Kim Williams o'r Borth. Mae Kim yn gweithio i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn ar brosiect Gweilch y Pysgod ar Gors Ddyfi. Cawsom gefndir sefydlu'r prosiect trwy gyfrwng lluniau a sgwrs ddifyr ac fe gafwyd llawer o wybodaeth ac hanesion diddorol am anturiaethau yr enwog Monty a Glesni. Roedd brwdfrydedd Kim yn sicr yn codi awydd i fynd am dro i weld y Ganolfan ac i ddringo i ben y tŵr gwylio i werthfawrogi'r golygfeydd. Cyn troi am adre cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Joyce a Dulcie.

### Clwb Cant Clwb Hoci Bow Street

Dyma enillwyr y Clwb Cant.
*Rhagfyr 2014*
£10 - Talia Jones
£5 - Delyth Morgan
£5 - Phil Jones
*Ionawr 2015*
£10 - Cerys Humphreys
£5 - Hannah Jones
£5 - Dan Lewis

### Capel Y Garn Cymdeithas y Chwiorydd

Cafwyd cyfarfod difyr brynhawn Mercher, Mawrth 4ydd. Y gwahoddiad oedd i'r aelodau ddod â rhywbeth roedden nhw'n ei drysori. Cafwyd ymateb gwych o arteffactau personol - a phob un â'i hanesyn gwahanol a diddorol - yn amrywio o gorn hela Cotiau Coch Gogerddan, casgliad hyfryd o lwyau te o'r India i gyfrol o gerddi Robbie Burns - a mwy.

Paratowyd te gan Gwenan, Ann a Meinir L. Gwenan wnaeth y defosiwn gyda Kathleen yn cyfeilio.

Bydd y te nesaf yng Ngwesty'r Conrah ar Fawrth 25ain am 3 o'r gloch. Rhowch wybod i'r ysgrifennydd - Mrs. Shân Hayward - rhif ffôn 828268 - mewn da o bryd. Trefnir cludiant yn ôl y galw.

### Canmoliaeth

Llongyfarchiadau i Deli Matt yn y pentref ddaeth yn rif 18 yn yr 20 bwyty gorau yng Nghymru ar wefan y cwmni Trip Advisor. Mae 3 o'r 20 yng Ngheredigion – rhestrir dau le yng Nhgeinewydd yna ond lleolir y gweddill yng ngogledd a de Cymru.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwenda Edwards, Tregerddan ar farwolaeth modryb yn Llandudno

ac â Sioned Puw Rowlands, Dôl Bebin, a'r teulu ar farwolaeth ei thad – John Rowlands – gynt o Dôl Bebin yn y Groeslon, Gwynedd. Cofiwn at Eluned, Huw a Dyfed yn Dolydd, y Groeslon.

Cydymdeimlwn â Menna ac Elgan Davies a'r teulu, Maes Afallen, ar farwolaeth mam Menna yn Llwynypia ar Fawrth 9fed.

Cydymdeimlwn â Felicity Roberts, Bryn Castell a'r teulu ar farwolaeth tad Felicity – yr Athro Thomas Hughes Ellis BA, MVM, MSc. FRCVS, Cricieth, ar 15 Ionawr yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli. Bu mewn practis milfeddyg ym Mhwllheli am tua ugain mlynedd cyn mynd ym 1966 yn ddarlithydd yng Ngholeg Milfeddygol Prifysgol Dulyn lle bu am dros bum mlynedd ar hugain. Gweinyddwyd gwasanaeth ei angladd gan ei ŵyr, y Parchedig Rhun Gwynedd ap Robert.

Cydymdeimlwn â Shirley Rowlands, a Gwen Pugh, Tregerddan, ar farwolaeth Ernie Rowlands - gŵr a brawd - ar Fawrth 10fed. Cynhelir gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Aberystwyth ar ddydd Iau 19fed am 12.45. Derbynir rhoddion er cof tuag at Ambiwlans Awyr Cymru d/o Trefor Evans, Llandre.

### Maes Ceiro

Mae'n braf medru croesawu trigolion newydd i Maes Ceiro: croeso mawr i Irfon Evans i Rhif 2 ac i Huw, Nia a Seren Bates i Rhif 6.

### Dathlu

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Beryl Bowen, 23 Maes Ceiro a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar y 9ed o Ebrill. Hefyd Mrs Mair Jones, Cân y Gwynt, Maes y Garn, a fydd yn dathlu pen-blwydd yr un mor arbennig ar y 27in o Fawrth. Yn ôl pob son mae'r ddwy yn symud o'r chwedegau i'r saithdegau!

### Pen blwydd hapus


Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus hwyr i Heulwen, Salon Siriol, oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 50 dydd Sadwrn 14 Mawrth!

### Swyddfa Post

Lleolir y Swyddfa Post ers Mawrth 2il yn Siop Spar. Ar hyn o bryd mae'r Posst ar agor 9-5.30 a staff yn dal i gael hyfforddiant. Cyn hir bydd yr oriau yn ymestyn i 7am-10pm. Mae modd prynu y Tincer erbyn hyn yn y siop.

### Cynhyrchiad newydd o Les Miserables

Bydd Theatr Ieuenctid yr Urdd, mewn cydweithrediad gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, yn llwyfannu Les Miserables ar lwyfan Donald Gordon yng Nghanolfan y Mileniwm dros hanner tymor yr hydref, dan arweiniad Cefin Roberts, Cyfarwyddwr Ysgol Glanaethwy. Ymhlith yr 120 a ddewiswyd i gymryd rhan o blith dros 200 o bobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed wnaeth gais i fod yn rhan o'r sioe, mae Jordan Lloyd Jones, Bow Street; Geraint Howard, Tal-y-bont a Sion Hurford, Penrhyn-coch. Dymuniadau gorau iddynt.





## 'Mwyaf adfyd fu erioed . . .'

Coed Maes Ceiro
(Seiliedig ar yr hen gerdd 'Coed Glyn Cynon')
Creulon iawn oedd sgrech y llif
Ar goed di-rif yn rhwygo,
Mwyaf adfyd wnaed erioed
Oedd torri coed Maes Ceiro.

Torri rhes o goedydd ir
Fu yno'n hir yn tyfu,
Lle byddai'r dail yn chwifio'n iach
A'r adar bach yn canu.

Coed a fu'n gysgod braf i'r stad
(Pa ŵr a wad eu harddwch?)
Sydd bellach yn doredig wyw –
Truenus yw'r aflerwch.

Y gwanwyn tyner ddaw cyn hir
I lonni tir ein henfro,
A daw yr haf i gadw oed,
Ond nid i goed Maes Ceiro.

Yn fud gorweddant, goed di-ail,
Heb nyth na dail i'w brigau,
A dim i gofio am eu rhin
Ond olion crin eu hangau.

Fe ganwyd hon o ganig brudd
Gan brydydd sydd yn coelio
Mai'r adfyd mwyaf wnaed erioed
Oedd torri coed Maes Ceiro.

Eos Ceiro a'i cant.

ytincer@googlemail.com

# Rali Ymreolaeth a Chwarae Teg i Gymru, 4 Ebrill

A yw Cymru'n genedl neu ranbarth? Ai Cynulliad Cymru ddylsai fod yn gyfrifol am ein heddlu a'n system gyfreithiol? A ddyliau Cymru gael rheolaeth dros ei thir a dwr ei hun?

Mae pobl Cymru am ddatganoli llawer iawn mwy o rym i'n Cynulliad Cenedlaethol. Dangosodd arolwg barn YouGov a gynhaliwyd ar ran YesCymru fod 63% o bobl Cymru am i'n Cynulliad dderbyn yr un pwerau â'r Alban. Dangosodd arolwg barn ICM Comisiwn Silk gefnogaeth gref dros ddatganoli materion fel budd-daliadau, ynni, a phlismona. Ymhellach, yn ôl yr un ymchwil, mae pobl Cymru yn cefnogi datganoli materion fel darlledu i Gymru. Er hyn, mae'r pwerau sy'n cael eu cynnig i Gymru ar hyn o bryd yn llawer llai na'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r Alban.

Ar draws Ewrop mae pobl yn sylweddoli bod y pŵer yn eu dwylo. Mae pwy sy'n rheoli Cymru yn rhy bwysig i'w adael i wleidyddion yn unig. Dyna pam y mae rhaid i ni, pobl Cymru, uno yn ein galwad dros rymoedd i reoli ein tir a dŵr yn ogystal â phwy sy'n tyllu oddi tano. Y pwerau i redeg ein heddlu a'n llysoedd. Y gallu i benderfynu ar bolisïau darlledu, trethu a lles.

Mae 'YesCymru' yn fudiad anmhleidiol a thraws-bleidiol newydd. Ein nod yw sicrhau nad yw Cymru yn cael ei anghofio yn y ddadl gyfansoddiadol sy'n digwydd ar hyn o bryd yng ngwledydd Prydain. Rydym yn trefnu rali i alw am Ymreolaeth i Gymru a'i phobl am 2pm ddydd Sadwrn 4 Ebrill tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd.

Rydym yn credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol, sy'n croesawu ac yn dathlu'r ffaith fod pawb sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt – o ba gefndir bynnag – yn ddinasyddion llawn yn y Gymru newydd, a'r gobaith yw cael trawstoriad o bobl amlwg o'n cymdeithas sifig i annerch y dorf.

Bydd yr holl fanylion diweddaraf, gan gynnwys enwau'r siaradwyr, yn cael eu postio ar ein gwefan – yescymru.org

Mae dyfodol Cymru yn ein dwylo. Ni allwn ganiatáu i Gymru gael ei gadael ar ôl.

**Siôn Jobbins**
Ar ran Pwyllgor Gwaith Yes Cymru

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Mae llawer o gwyno wedi bod yn ddiweddar am y trefniadau parcio o gwmpas Amlosgfa Aberystwyth. Y duedd bresennol yn ôl pob golwg gan y cwmni yw gwasgu cymaint ag y medrant o angladdau mewn un diwrnod ag i arbed costau. Mi allent gau i lawr wedyn ar ddiwrnod/au gwag. Nid yw'n beth sensitif bod cymaint â thri teulu o alarwyr yn gorfod cymysgu ar yr un pryd. Yn anffodus nid yw'r capel yn ddigon mawr ar brydiau i ddal y galarwyr gan adael llawer y tu allan mewn lle drafftiog. Oni ddylai'r asiantaeth oedd yn cynghori'r cwmni fod wedi rhagweld hyn. Nid yr un yw angladd Cymreig ag angladd yn Lloegr. Codwyd y mater hyn mewn cyfarfod o Gyngor Tirymynach, nos Iau 26 Chwefror a phenderfynwyd anfon llythyr i'r prif swyddfa gan argymell eu bod yn helaethu y cyfleusterau parcio ac o bosibl ystyried ail gynllunio ardal ystafell y gwasanaethau.

Adroddwyd bod y llwybr i faes chwarae Bryncastell wedi derbyn llawr cerrig ond fod y bwlch i'r cae yn dal yn fwdlyd. Penderfynwyd tynnu sylw perchennog y cae at y sefyllfa. Mae cerbyd sydd wedi ei barcio ger y fynedfa yn peri rhwystr i gerddwyr ac i gerbydau sydd am fynd mewn i'r cae. Gofynnir eto i'r perchennog i'w symud, a'r tro hyn yn eitha cadarn. Yr un peth hefyd i berchennog y cerbyd melyn wrth fynedfa tai blaenaf Tregerddan.

Erbyn y daw'r ***Tincer*** yma i law bydd y Swyddfa Bost wedi agor yn Siop Spar ac yn rhedeg yn esmwyth gobeithio. Deallir mai un person yn unig a wrthwynebodd i raddau y newid a hynny oherwydd y pellter gerddwyr gwaelod y pentref a'r drafnidiaeth wrth y siop. Mewn llythyr at y Pennaeth Priodol cwynodd yr wrthwynebwraig bod goleuadau croesi wedi eu gosod mewn pentref bychan fel Aber-arth a dim ond llygod mawr oedd yn eu defnyddio! Daeth ateb oddi wrth y Pennaeth mwyn yn dweud ei fod yn fwy na pharod i ddod i Bow Street i asesu poblogaeth y llygod!

Adroddodd y Cynghorydd Hinge fod y morglawdd yng Nghlarach wedi dal y storm ddiwethaf yn llwyddiannus. Dywedodd fod perchnogion tai ym Maes Ceiro wedi methu yswirio oherwydd bod coed yn rhy agos atynt. Torrwyd y coed ar unwaith, diolch i Mrs Mair Davies, sy'n berchen ar y tir. Bu peth gwrthwynebiad gan rhywrai nad oedd yn byw yn agos atynt! Maesafallen: Bydd yr uwchraddio yn cael ei dderbyn unrhyw ddiwrnod yn awr gan fod y biliau wedi mynd allan i'r deiliad anffodus erbyn bydd y papur hwn yn ein dwylo.

Cynllunio: Cais am amrywio amod 2 yng nghais cynllunio i ganiatau defnydd 12 mis y flwyddyn ar gyfer 3 carafan gweithwyr ar Faes Gwyliau Glan y Môr, Clarach. (Wedi ei dderbyn). Cais dileu amodau 2, 3, 4 ac amrywio 5 yng ngais cynllunio parthed datblygiad ar ddarn o dir ger Llys Iawn, Dolau. (Wedi ei dderbyn). Cais newydd. Newid defnydd ac addasu adeilad rhestredig oedd yn arfer bod yn neuadd eglwys i fod yn annedd yn Neuadd Eglwys Llangorwen (yr hen ysgol). Argymhellwyd fod yr arysgrif hen sydd ar y mur yn cael ei gadw, gyda'r hen sillafiad o Gogerddan.

Dosbarthwyd Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartrefi Preswyl Cyngor Sir Ceredigion ac argymhellwyd ein bod yn llanw'r adran briodol mewn da bryd. Soniwyd bod Cartref Tregerddan bellach yn rhan anatod o'r gymuned a bod Cyfeillion Tregerddan yn fudiad gweithgar a llwyddiannus.

Llongyfarchwyd Lewis Ellis Jones, Gezeira, Bow Street ar gael ei ddewis i chwarae rygbi i dîm dan 16eg oed Cymru a dymunwyd pob llwyddiant iddo.

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd cymerwyd y gadair gan y Cyng. Dewi Evans. Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Mawrth.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL


### Urdd y Benywod

Nos Lun Mawrth 2il daeth nifer o drigolion yr ardal ynghyd i Ganolfan Groeso Statkraft i fwynhau noson o gawl a cherddoriaeth gwerin gan bobl leol. Mae Nancy Evans, Ty-poeth, a Gwen Morgan, Y Byngalo, wedi bod wrthi yn paratoi y cawl ers nifer fawr o flynyddoedd ond eleni mi wnaeth y ddwy benderfynu ei bod yn amser i rai o'r bobl ifanca i gymryd drosodd.

Fel arwydd o werthfawrogiad cyflwynodd Norma Stephens anrheg o lwy bren gyda'u henwau arnynt i Gwen a Nancy i gofio am yr oriau y maent wedi eu dreulio yn y Ganolfan yn troi y cawl bob blwyddyn! Diolch o galon i'r ddwy a hefyd diolch i bawb a fu wrthi eleni eto yn paratoi ar gyfer y noson

Dyma lun o Norma Stephens yn cyflwyno y llwyau i Gwen Morgan a Nancy Evans.









# Taith gerdded y mis

## Blaen-Plwyf i Fynachdy'r Graig

**Man dechrau**: Cilfan ger Capel Blaen-plwyf.
**Map**: OS Explorer 213. GR 575755.
**Pellter**: 4 milltir. Un ddringfa o tua chwarter milltir, ond y gweddill yn hawdd.




O'r gilfan ewch i'r chwith a throi eto i'r chwith tuag at fferm Rhosfawr. Cyn cyrraedd yr adeiladau trowch i'r dde drwy'r iet ac i fyny tuag at y clawdd a'i ddilyn i gyrraedd y ffordd ger y mast teledu. I'r chwith ac i'r dde dros sticl a draw i fferm y Pentre. Ymlaen ar hyd y feidr ac ar hyd y caeau lawr at adfaelion Ffoslas. ( Gweler carafan 'Y Gwyll' ochr isaf yr adeiladau) Cadw i'r chwith a dros sticl ac i lawr y cae uag at lwybr yr arfordir nes cyrraedd Mynachdy'r Graig. Ar ôl mynd heibio'r tŷ mae llwybr ar y chwith yn eich arwain i fyny cyn troi eto i'r chwith draw tuag at Carreglwyd . Cadw at ochr chwith y tŷ i fyny at y ffens a dros sticl sydd ar y dde. Draw dros y cae i'r ffordd heibio Llain Wen i fferm Y Pentre ac yn ôl i'r man dechrau.


Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
*Mawrth*
22 10.30 Y Parchg Raymond Jones
Bethel yn cydaddoli
Ysgol Sul yn y festri dan ofal Wendy
29 10.30 Kieran Owen

*Ebrill*
5 Sul y Pasg 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
12 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
19 10.30 Ysgol Sul yn y festri
2.30 Y Parchg Carwyn Siddall
26 10.30 Tecwyn Jones, Machynlleth / Ysgol Sul yn y festri

### Curad newydd

Cyhoeddwyd ar ddydd Gŵyl Ddewi y daw Lyn Lewis Dafis yn gurad o dan hyfforddiant y Parchg Ganon Andrew Loat ym mhlwyfi Llanbadarn Fawr ac Elerch a Phenrhyn-coch a Chapel Bangor o ddiwedd mis Mehefin ymlaen. Mae Lyn – sydd yn gyn aelod staff y Llyfrgell Genedlaethol – yn wyneb cyfarwydd yn y pentref. Bydd Lyn – sydd yn dilyn cwrs blwyddyn dan hyfforddiant yn Ngholeg San Mihangel, Llandaf ar hyn o bryd – yn byw yn y Ficerdy ym Mhenrhyn-coch.

### Urdd Gwragedd St Ioan

Nos Lun Mawrth 2il oedd cyfarfod cyntaf 2015. Collwyd un o'r aelodau - sef Dawn Roberts - yn sydyn a chafwyd munud o dawelwch er cof amdani. Fe fydd colled ar ei hôl yn y gymdeithas. Yna gwahoddwyd Mrs Ann Williams i'n hannerch ar y testun "Beth yw bywyd fel gwraig i Offeiriad". Cafwyd cryn hwyl yn gwrando ar rai oi phrofiadau, roedd wedi mwynhau bob munud yn ystod gyrfa ei gŵr. Diolchwyd iddi am noson hwyliog

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Richard Owen, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei fodryb yn Llanfechell, Sir Fôn ac â Robert Dobson a'r teulu ar farwolaeth ei fodryb ym Mynytho. ac â Gwennan Price a'r teulu, Dolmaeseilo, ar farwolaeth Osi Rhys Osmond ei brawd yng nghyfraith.
Cydymdeimlwn â Margaret Thomas a'r teulu ar golli ei phriod, Alan Thomas, Ger-y-llan yn ddiweddar.

â Mrs C Harries a'r teulu, Ger-y-llan, ar golli ei phriod, Denzil Harries;

â Mavis a Job McGauley ar golli brawd Mavis yn ddiweddar;

ac â Helen, Gillian a Geraint a'u teuluoedd ar golli eu mam, sef Mona Edwards, Hafod Garth. Un o blant y pentre a arhosodd yn ei milltir sgwâr ar hyd ei hoes ac a fu'n ffyddlon yn Capel Horeb hyd y diwedd a bu yn weithgar iawn efo popeth yn y pentre. Cydymdeimlwn hefyd â'i chwaer Laura Bolt, Ger-y-llan.

### Cofio Mona

Atgofion melys am yr hyn a fu
A'r oriau hapus yn ei chwmni.
Bu'n wraig, yn fam a mam-gu
A'i gofal fu'n fawr am ei theulu.
Yn ei gwaeledd fe wnaeth ymdrechu
A'i chofleidio wnaethoch i gyd fel teulu.
Fe gadwodd ei ffydd ar hyd y blynydde
A bu'n ffyddlon i bopeth yn y pentre.
Cymerwch gysur ei bod bellach yn cysgu
A hynny yn dawel ym mreichiau yr Iesu.

**Ffrind**

### Genedigaeth

*Dylai y cofnod isod fod wedi darllen fel hyn y mis diwethaf – ymddiheuriadau!*
Llongyfarchiadau i Dylan a Beth Alys ar enedigaeth Alfie Thomas James ar 16 Ionawr. Ŵyr i Eirlys James-Davies, Y Ddôl Fach a Richie James, Ger-y-llan,




Llongyfarchiadau i Lowri Mair a Steffan Rhys Jones – o Benrhyn-coch sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Llanilar. Cafodd Steffan ddwy wobr gyntaf ar unawd ac unawd cerdd dant Blwyddyn 2 a iau a chafodd Lowri gyntaf yn yr un ddwy gystadleuaeth Blwyddyn 3 a 4. Pob hwyl iddynt ym Mhontrhydfendigaid yn yr Eisteddfod Ranbarth.



### Priodas aur

Pumdeg mlynedd yn ôl y mis hwn, ar Sadwrn oer, gwlyb ag eira, yn Eglwys Penrhyn-coch, gyda'r cennin Pedr bychain yn agor yn y fynwent, priodwyd Fred a Delyth Ralphs. Gobeithio bydd yr haul yn gwenu iddynt ar ddiwrnod dathlu eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau mawr.

Llongyfarchiadau i Rhun a Lowri Emlyn, Dôl Helyg, ar enedigaeth merch fach - Anest Gwyneth Emlyn ar 6 Mawrth - chwaer fach i Elis.

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Mawrth; 8 a 22 Ebrill;. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Cymorth Cristnogol

Mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r casglu mewn rhai ardaloedd yn y pentref – cysylltwch â Ceris Gruffudd os ydych yn fodlon cynorthwyo.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Jim Richards, Ceirios, ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hefyd Irene Taylor, Tan-y-berth, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymunwn wellhad buan i Clifford Evans, Beech House, fu yn ddiweddar yn Ysbyty Treforus.

### Cinio Sioe Penrhyn-coch

Cynhaliwyd cinio sioe Penrhyn-coch ar yr 27ain o Chwefror yn y Conrah gyda nifer wedi troi allan i fwynhau gyda Catrin a John Galbraith, Llywyddion y Sioe y llynedd, yn ein mysg. Cafwyd croeso arbennig gan berchnogion go newydd y Conrah. Croesawodd Dai Rees Morgan bawb i'r cinio a diolchodd i bawb am eu rhan yn gwneud y sioe yn llwyddiannus unwaith eto. Yna ar ôl cael y cinio blasus dros ben a digon ohono. Fe ategwyd at ddiolch Dai gan Mairwen yn ei dull arferol yn dweud rhigwm o'i gwaith.

Yna fe ymlaciodd pawb a sgwrsio am wahanol bethau a chael hwyl yng nghwmni ein gilydd cyn troi tua thre ar ôl noson wych.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 12fed o Chwefror croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd, Wendy Reynolds. Trafodwyd y busnes arferfol a mynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis. Yna fe groesawodd ein llywydd ein gŵr gwadd, sef Geraint Evans, Tal-y-bont. Bu Geraint yn sôn am y llyfrau ditectif oedd ef ei hun wedi ysgrifennu. Roedd yn ddiddorol clywed sut oedd yn mynd ati i gael sail i'w storïau. Deallir fod yna lyfr arall ganddo ar y gweill ac y bydd hwnnw allan cyn bo hir. Roedd wedi dod ag amryw o lyfrau yr oedd wedi'u hysgrifennu gyda phobl tebyg i Conan Doyle, P. D. James ac yn y blaen. Roedd rhai o'r llyfrau yn ei gasgliad yn rhai hen iawn, ond yr oedd clywed am rai storïau yn gallu codi arswyd arnoch chi. Fe wnaeth grybwyll hefyd am y ddrama *Y Gwyll*, sydd ar hyn o bryd yn cael ei dangos ar y teledu, gydag amryw o bobl leol yn cymryd rhan. Noson wych yng nghwmni dyn a allai wedi bod yn dditectif da iawn ei hunain. Diolchwyd yn swyddogol i Geraint gan Miriam Garratt yna cafwyd cwpanaid a thynnu'r raffl misol i ddiweddu'r noson.

### Pêl-droed

TÎM CYNTAF
7/2/15 Cynghrair
Machynlleth 0-3 Penrhyn-coch
14/2/15 Cynghrair
Prifysgol Aberystwyth 1-6 Penrhyn-coch
Cynghrair
20/2/15 Cwpan Cynghrair
Penrhyn-coch 2-1 (AET) Machynlleth
24/2/15 Cynghrair
Llansanffraid 1-3 Penrhyn-coch




28/2/15 Cynghrair
Penrhyn-coch 5-0 Aberriw
7/3/15 Aberaeron 1-2 Penrhyn-coch
Cynghrair
10/3/15 Cwpan Canolbarth Cymru
Penrhyn-coch 2-3 (AET) Cegidfa

EILYDDION
14/2/15 Cynghrair Penrhyn-coch 1 3
Eilyddion Prifysgol Ab'th
28/2/15 Cynghrair
Tal-y-bont 6-0 Penrhyn-coch
7/3/15 Cynghrair
Penrhyn-coch 2-4 Eilyddion Bow Street

3YDD TÎM
28/2/15 Cynghrair
Eilyddion Padarn 12-0 Penrhyn-coch
7/3/15 Cwpan
Eilyddion Dolgellau 2-1 Penrhyn-coch

MENYWOD
1/3/15 Penrhyn-coch 2- 0 Prifysgol
15/3/15 Tregaron 7-0 Penrhyn-coch

### Peintio Baneri

Eleni, cynhaliwyd prosiect peintio baneri fel rhan o weithgaredd Parêd Gŵyl Dewi Aberyswtyth yn sgîl nawdd hael gan WEN Cymru. Ladis Ruth Jên oedd canolbwynt y baneri – gyda phlant ysgolion yr ardal, a'r rhai ddaeth i'r gweithdy, yn eu peintio a'u perchnogi â'u creadigrwydd. Dyma faner Ysgol Penrhyn-coch. Mae gwaith Ruth Jên i'w weld tan ddiwedd mis Mawrth yn ardal y Cwtch, Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl.



## TREFEURIG

### Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau i Gronw Downes, Glanrafon, ar ennill yr unawd pres blwyddyn 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd yng Ngheredigion yn ddiweddar. Pob hwyl yng Nghaerffili!



### CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn **31 Mawrth 2015**.

**Yr ysgrifennydd yw:**
Mary Jones
Lleifior
27 Glan Rheidol
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG
01970 624408
e-bost: lleifior@dircon.co.uk

### CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION 2015

**CAPEL Y GARN, BOW STREET,**
**DYDD SUL 10 MAI 2015**
am 10.00 a 5.30 o'r gloch.
**ARWEINYDD**: Mr Rob Nichols

**TREFN Y RIHYRSALS**
**Nos Fercher, Ebrill 1**
Bethel (Aberystwyth) 7.00

**Nos Fercher, Ebrill 15**
Bethel, (Tal-y-bont) 7.00

**Nos Fercher, Ebrill 22**
Y Morfa (Aberystwyth) 7.00

**Nos Fercher, Ebrill 29**
Seion (Aberystwyth) 7.00

**Nos Fercher, Mai 6**
Y Garn, (Bow Street) 7.00

# Y BORTH

### Cymdeithas Henoed y Borth

Cynhaliwyd ein te parti a chwis Gŵyl Ddewi dydd Iau. Ein diolch i'r pwyllgor am baratoi y bara brith, teisennau cri, pei a hufen, bara menyn, jam a chaws. Roedd yn ddigwyddiad hyfryd ac roedd yn bosib i 31 o'n haelodau fynychu.

Roeddym yn falch o weld Zena Swordy yn ôl wedi ei chyfnod yn yr ysbyty ar ôl torri ei chlun. Diolch i Betty am y cwis (oedd yn bennaf am y Borth) ac os all rhywun adael i ni wybod dyddiad llosgi hen Neuadd y Borth bydden yn ddiolchgar.



Yn y cyfarfodydd nesaf byddwn yn cael cerddoriaeth a straeon efo Les, sgwrs gyda chymorth sleidiau gan Erwyd Howells - ac adloniant gan blant Ysgol Craig yr Wylfa - sydd wastad werth ei weld. Dowch i ymuno â ni pob yn ail dydd Iau yn Neuadd Gymunedol y Borth am 2.00 gan ddechrau ar Fawrth19. Aeth pleidlais taith y gwanwyn i Hen Orsaf y Trallwm a Charlies yng Nghoed y Dinas. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Betty ar 871135 neu Joy ar 871649.

### Cydymdeimlad

Cydymdeinlwn â Milwyn Jones, Rocklands, ar farwolaeth ei wraig Ruth ganol y mis.

### Diwedd Pennod

Pan ddaeth aelodau presennol Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch at eu gilydd ar gyfer eu Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty Llety Parc, nos Wener, Mawrth y 6ed, yr oedd yna elfen o dristwch yn yr awyr gan mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Gymdeithas. Penderfynwyd dirwyn y Gymdeithas i ben am fod nifer yr aelodau wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd. Serch y tristwch cafwyd noson hwyliog yn hel atgofion ac yn gwerthfawrogi'r hyn oedd y Gymdeithas wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd wrth roi cyfle i'r elfen Gymreig o fywyd y Borth gael ei ddathlu a'i hyrwyddo. Ar ddechrau'r noson cyflwynwyd y Gras Bwyd gan y Parch. Elwyn Pryse a oedd wedi bod yn aelod mor ffyddlon ar hyd y blynyddoedd ac wedi bod mor allweddol yn cadw'r Gymdeithas i fynd. Ar derfyn y noson cyflwynodd y Llywydd, y Parch. Richard Lewis, dorch o flodau i Mrs Llinos Evans, yr Ysgrifennydd ers rhai blynyddoedd bellach, fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r Gymdeithas.





## Eglwys ac Ysgol Sul y Borth

Yn y llun gwelir rhai o aelodau yr ysgol Sul yn gwneud cardiau Sul y Fam.

Mae'r amser yma yn un prysur i eglwysi wrth baratoi am y Pasg, yr wyl bwysicaf yng nghalendr yr eglwys.

Dydd Sul Mawrth 8fed cynhaliwyd Cymanfa ganu (hwyr) i ddathlu Gwyl Ddewi. Fe'i trefnwyd gan y Parchedig Ddr David Williams, oedd wedi gwneud ymchwil i'r holl emynau a arweiniwyd gan Mrs. Jane Leggett a'r organyddion oedd Michael James a Mrs. Sue Jenkins.Ein diolch iddynt.

Dydd Sul Mawrth 29ain – Sul y Blodau – bydd gorymdaith yn gadael Eglwys y Borth am 9,00 y bore gan gyrraedd Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am 11.00. Croeso cynnes i bawb.

Nos Iau Ebrill 2ill am 7.00 byddwn yn cynnal cymun 'Swper Olaf ' yn Eglwys St Matthew.

Fore Gwener y Groglith – Ebrill 3ydd am 10.00 bydd gwasanaeth teulu a gwasanaeth Hwyrol weddi a myfyrdod am 2.00.

Dydd Sul y Pasg Ebrill 5ed am 11.15 a.m.bydd Cymun y Pasg yn St Matthew gyda Hwyrol Weddi am 5.00.

Bwyd Da . . .
Cwmni Da . . .
yBlac
TALYBONT
Bwyty a Bar
**Cinio** 12.00-2.30 **Swper Nos** 6.00-9.00 **Cinio Sul** 12.00-3.00
**Partion | Digwyddiadau | Llogi ystafell | Pen-blwydd Dathlu | Priodasau | Parti Bedydd | Te angladd**
Byddwn ar gau rhwng 26 Ionawr - 11 Chwefror
Croeso i chi e-bostio neu adael neges ar y ffôn ac fe wnawn ni gysylltu â chi
*Gwelwn chi'n fuan. . . Cofion Siân, Catrin a'r tîm*
01970 832 555 croeso@gwestyllewdu.com

# LLANDRE

### Cerddor ifanc llwyddiannus

Llongyfarchiadau i Gwern Penri, Taigwynion, am ennill Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Ysgol Penweddig.

**Rhaglen 2015 Treftadaeth Llandre**
**Mawrth 26** Eirian Jones, Awdur *Mynydd Bach / Rhyfel y Sais Bach*
**Ebrill 30** Einion Gruffudd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Mapiau Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn
**Mai 30** Sadwrn Prysur – Pethau difyr i'r teulu
**Mehefin 25** Taith Brynhawn – Dafydd Wyn Morgan, Twm's Treks – Antur o gwmpas Tregaron
**Gorffennaf** – Egwyl dros yr haf
**Awst 27** Taith ddirgel ar y bws – (Manylion i ddilyn)
**Medi 24** Richard Smith, Cambrian Safaris
Blas ar yr Elenydd
**Hydref 29** Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Phil Jones - Ffotograffiaeth o amgylch Llandre
**Tachwedd 26** Peter Lord Diwylliant Gweledol Cymru
Fel rheol cynhelir y cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem ar ddydd Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30 yr hwyr. Aelodau (tanysgrifiad am £5) - mynediad am ddim. Pawb arall - £2 y cyfarfod.

### Banc Bro - Clwb 50

*Enillwyr mis Ionawr*
£30 Joy Evans, Tynsimdde
£20 Bryn Roberts, Bow Street
£10 John Meirion Hughes, Dolau

*Enillwyr mis Chwefror*
£30 Regina Jones, Bron-y-gân
£20 Elystan Morgan, Dolau
£10 Huw Meirion, Bancyfelin

Mae angen i aelodau'r Clwb ail gofrestru ar gyfer 2015. Cysylltwch â'r Trysorydd Dai England, Pant-y-glyn, Llandre - Ffôn: 01970 828693 daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Eric Ellis Jones, Carreg Arian a'r teulu ar farwolaeth tad Eric, sef Roli Jones, Maes Ceiro, mis diwethaf.
Ac â Morfudd Clarke, Bron Ceiro, Gwenan Price a'r teulu,Dolmaeseilo Penrhyn-coch ar farwolaeth Osi Rhys Osmond, gŵr Hilary.

### Hanner Marathon Ynys Môn

Ar Fawrth y 1af bu Gwenda James, Tremedd, yn rhedeg hanner marathon Ynys Môn. Llongyfarchiadau iddi ar ei marathon cyntaf.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Glain Llwyd, Pentan, Lôn Glanfred ar ddod yn drydydd yn unawd chwythbrennau blwyddyn 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol Ceredigion.

### Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Lynwen Evans, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred ar gael ei phenodi yn athrawes yn Ysgol Penrhyn-coch.

### Gwellhad buan

Croeso adre i Regina Jones, Bron-y-gân, ar ôl cyfnod yn Ysbyty Treforys, a phob dymuniad am wellhad buan.

### Merched y Wawr Genau'r Glyn

Bu cangen Merched y Wawr Genau'r-glyn yn dathlu'r flwyddyn newydd ar brynhawn dydd Sadwrn, 14 Chwefror trwy gael cinio blasus ym Mwyty'r Maes Bangor, Capel Bangor. Anfonwyd cofion at y rai o'r aelodau oedd yn methu ymuno â ni oherwydd salwch. Enillwyd y raffl gan Nans Morgan. Diolchodd Gwenda James i Marian Jenkins am ei threfniadau trylwyr ac i John a David a staff y Maes Bangor am eu gwasanaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesa ar 18 Mawrth, noson yng ngofal Gwenda James, Mary Thomas ac Elina Davies.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost: mairllo@hotmail.co.uk.

# Teithio De America

Wedi misoedd o fyfyrio, arbed arian a chynllunio, daeth y pumed o Chwefror i'n cwrdd fel fflach. Bu'n freuddwyd ers talwm i fy nghariad Gwenno a minnau i bacio bag a mynd i deithio, ac roedd y ddau ohonom yn llawn cyffro wrth adael gorsaf Aber y diwrnod hwnnw.

Cam cyntaf y daith fawr oedd awyren wyth awr i Efrog Newydd, a chyfle i brofi'r Unol Daleithiau am y tro cyntaf - ac am ddinas! Bu'n bedair diwrnod hynod o oer o gerdded ac archwilio'r ddinas enwog a mwynhau pob cornel ohoni. Ond yr anhysbys oedd ar feddwl y ddau ohonom, y cyfandir fawr i'r de, a'r wlad gyntaf ar ei hyd - Colombia.

Bu cynnwrf bob tro i ni grybwyll y wlad cyn gadael, a phryder ar feddwl nifer, ond mewn gwirionedd mae Colombia'n wlad sydd wedi datblygu'n aruthrol dros y ddegawd diwethaf. Er fod nifer yn dal i



adfer o'r trais, o fyd Pablo Escobar ysgeler y degawdau blaenorol, a miloedd yn dal i fyw mewn newyn, dyma wlad yn llawn pobl balch,croesawgar a thwymgalon. Mewn gwlad lle 'roedd bywyd pob dydd unwaith yn beryglus i'w drigolion ei hun, mae'n bleser pur i'r Colombiaid i weld twristiaid yn eu gwlad, a bu nifer yn ddigon caredig i gychwyn sgwrs,i ddangos diddordeb, a'n croesawu i'r wlad.

Mae'n wlad anferth gyda llwythi i'w gweld, a phob ardal yn brolio tirwedd a phobl wahanol. Mae ardal hanesyddol y ddinas Cartagena yn gymysg o effaith Sbaeneg a Charibiaidd; a'r synau a lliwiau yn yr ail Carnaval mwyaf yn y byd ym Marranquilla yn fythgofiadwy. Mae yna arfordir o dywod gwyn yn Nhaganga, lle dysgom i sgwba ddeifio, sy'n nodweddiadol o'r Caribî, a Pharc Cenedlaethol Tayrona yn erwau o jwngwl a thraethau heb eu cyffwrdd. Medellin yw'r mwyaf nodweddiadol o drawsnewidiad y wlad - unwaith y ddinas mwyaf fileinig yn y byd, nawr y fwyaf arloesol. Yng Nguatape mae yna dirwedd arallfydol, a chraig anferthol i weld y cyfan o'i ben; a channoedd o ffermydd coffi yn uchderau Salento, a'r ardal goffi.

Ry'n ni ym mhrifddinas Ecwador, Quito, nawr, ac mae dal digon i'w weld dros y tri mis nesaf - gormod a dweud y gwir. Mae Periw, Bolifia, Yr Ariannin, gan gynnwys Patagonia, yn dal i ddod, cyn hedfan nôl o Rio ym Mrasil ym Mehefin. Ond wedi'r hwyl sydd wedi pasio hyd yn hyn mae'r cyfandir hynod hwn yn edrych yn addawol iawn.

**Dylan Elidyr Jenkins , Clarach**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Pen-llwyn**

*Mawrth*

**22** 5 Bugail cymun
**29** 2 Llwyn-y-groes John Tudno Williams

*Ebrill*

**3** 10.00 Gwasanaeth y Pasg yng Nghapel Seion
**5** 10.00 Oedfa Pasg yr Ofalaeth yng Nghapel y Garn
**12** 5 Bugail cymun
**19** 10 Huw Roderick
**26** 10 I'w drefnu

### Dymuniadau Hwyr

Dymunwn i Mrs Eleanor Jones Tan y Gaer, ddymuniadau gorau iddi ar ddathlu pen blwydd arbennig ar 28ain o Chwefror.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Dathlu Gŵyl Ddewi a wnawn fel arfer yn ein cyfarfod ym mis Mawrth a dyna a wnaethom eto eleni. Aeth yr aelodau draw i Gaffi Pennau a chroesawyd pawb yno gan ein llywydd, Eirwen McAnulty. Llongyfarchwyd Liz Collison, un o'r aelodau am yr erthygl a ysgrifennodd i'r rhifyn cyfredol o'r *Wawr* yn dilyn ei hymweliad â'r Gambia i wylio adar.

Coffawyd pedwar o enwogion ein cenedl a gollwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, sef Rhys Jones, John Davies, Meredydd Evans a John Rowlands. Cawsom ychydig o hanes Dewi Sant gan y llywydd gan gofio'n arbennig am ei eiriau olaf, "Cedwch y ffydd. Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i." Gofynnwyd bendith ar ein bwyd cyn i ni fwynhau'r wledd a gawsom.

Croesawyd y wraig wadd, sef Caryl Haf o Landdewibrefi a'i chyfeilyddes, Alice Jones. Canodd Caryl Haf amrywiaeth o ganeuon gan gynnwys nifer o alawon gwerin sy'n apelio'n fawr ati. Mwynhawyd noson draddodiadol Gymreig yng nghwmni'n gilydd.

Diolchodd Angharad Jones i'r ddwy am ein diddori ac i Grefftau Pennau am y bwyd blasus a'u croeso cynnes. Enillwyd y gwobrau raffl gan Eirwen McAnulty, Alison Little, Eirwen Sedgwick, Caryl Haf, Glenys Jones, Megan Isaac ac Angharad Jones.



### Bedydd

Ar ddydd Sul Chwefror 22ain, yng nghapel Pen-llwyn bedyddiwyd Ela Jen, gan y gweinidog, y Parchg Wyn Morris. Merch fach Jonathan ac Angharad Lewis, Bronllys, yw Ela, chwaer fach Morgan Jac, ac Iestyn Dafydd. Hyfryd oedd gweld y ferch fach yn edrych mor hapus ym mreichiau Mr Morris.

### Enillwyr Clwb 200 Cylch Meithrin Pen-llwyn

Tachwedd:
1af – Norman Michelle, 2il - Edryd a Jane Jenkins, 3ydd – Gillian Davies.
Rhagfyr:
1af – Lesley Bickley, 2il – Liz Cooper, 3ydd – Gwenno Hughes.
Llongyfarchiadau iddyn nhw.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Y thema y tymor hyn i'r Cylch ydi 'Pobl sydd yn helpu ni' ac mae'r plant meithrin wedi dysgu a chael profiadau gwych ynghylch y thema hyn. Fe fu y Frigâd Dân allan i weld y plant a gwnaeth Karen e'i diddori gyda storïau a negeseuon o gadw yn ddiogel rhag tân. Fe fu Nia Gore, torrwr gwallt lleol, yn ymweld hefyd ac yn rhoi 'blow dry' i Miss Tracy ac ambell drim i'r plant. Diolch iddi hi. Ar yr 2il o Fawrth aeth y plant yn y Bws Bro i ymweld â Ward Angharad yn Ysbyty Bron-glais a cael esgus archwiliad a gweld fath o le sydd ar gael i blant yn yr ysbyty ag angen gofal.

Ar y 3ydd o Fawrth cawsom ein gwahodd i ymuno â Ysgol Pen-llwyn yn eu Heisteddfod Ysgol a chael siawns i gystadlu yn canu am ffonio naw naw naw. Gweler llun o Ifan Hedd Lewis a oedd yn fuddugol yn cael ei gyfarch gan un o'r plant ieuengaf Hollie Bevan. Da iawn i Ceri a Lili Ann Macy hefyd am ddod yn ail a thrydydd ac i'r holl blant a gymerodd ran.

Mi fyddwn ni'n cynnal Helfa Wyau ar y Sul 29fed o Fawrth yn Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd ac mae croeso i bawb ddod i ymuno â'r hwyl a chael siawns am wobr, 3-5yp. Rydym hefyd yn edrych ymlaen i gael Diwrnod Agored a dathliad 40 mlynedd i'r Cylch ar y Sadwrn 16fed o Fai a rydym am apelio i unrhyw un a fu i'r Cylch fel staff neu plentyn i ymuno â ni a bydd apêl arbennig i'r garfan gyntaf o blant a fu yn 1975 yn safle yr hên ysgol ger y capel yn Capel Bangor. Os oes gennych chi unrhyw atgof, wybodaeth neu luniau o'r Cylch/Ysgol Feithrin ar hyd y blynyddau a allwch chi gysylltu â cmpenllwyn@gmail.com neu gyda Nia Lewis neu Catrin Evans.



Teulu Tynrhyd - Sian, Dafydd, Alaw, Tomos a Delyth.



### Eglwys Dewi Sant

Ar Nos Fawrth Ynyd, cynhaliwyd Noson Grempog yn Neuadd yr Eglwys. Cawsom grempogau hyfryd a blasus gan y cogyddion. Gwnaed hwy gan Andrew Loat a Dei Powell, Garth a Helen Hughes, Gwynfor, Llinos a Siwan. I ddilyn cafwyd adloniant ardderchog gan Deulu Tynrhyd, Pontarfynach gan gofio am yr arweinydd dawnus Gareth Price. Hyfryd oedd gweld y talentau ifanc yn cymryd rhan, Dafydd, 9 oed ac Alaw a Tomos, 7 oed. Mae ganddynt ddyfodol disglair o'u blaenau. Dyma dair cenhedlaeth i chi. Hefyd, cynhaliwyd raffl ar y noson gyda llu o wobrau da. Cafwyd noson lwyddianus a phawb wedi mwynhau. Talwyd y diolchiadau gan Y Parchedig Andrew Loat.
Cofiwch am yr Helfa Wyau Pasg a gynhelir ar ddydd Sadwrn, 4 Ebrill am 1.30 o'r gloch.
Croeso Cynnes.

### Bedydd a Conffyrmasiwn

Ar ddydd Sul, 15 Chwefror, bedyddiwyd Amber Norman gan yr Esgob Wyn. Hefyd conffyrmiwyd Amber Norman, Gerallt Humphreys a Mia Howells.

Cynhaliwyd y ddau achlysur yn Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr.

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**INHERITANCE**
(7.30, nos Iau, 26 Mawrth):
drama (gan Riding Lights) sy'n rhoi profiad cymunedol o theatr ac addoliad. Mae'n plethu elfennau o stori'r Dioddefaint i naratif newydd dramatig, ac yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa ymateb wrth droed y Groes. Tocynnau: £6.

**DIGWYDDIAD AML-DDIWYLLIANNOL**
(12.00, dydd Sadwrn, 11 Ebrill): cyfle i flasu, clywed, gweld a phrofi'r amryw ddiwylliannau sy'n rhan o'n cymdeithas. Mynediad: £3.

**DEG DROS DDEG: FFAIR DATHLU**
(2.00-4.00, pnawn Sadwrn, 25 Ebrill):
y cyntaf mewn 10 digwyddiad dros 10 mis i ddathlu dengmlwyddiant Morlan!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970 617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

# Taith wahanol

Bydd Gwion Llŷr, Tremedd, Llandre yn un o bedwar myfyriwr – y lleill ydy Lucy, Alaw a Gwion – fydd yn gwneud taith ddiddorol iawn o gwmpas Cymru yn seiliedig ar daith y cymeriad Sal Paradise o nofel Jack Kerouac On The Road. Roeddynt yn cychwyn fore Mawrth ac yn ymweld â 21 lle yng Nghymru mewn bws mini dros dridiau gyda phob lleoliad yn cyfateb i safle yr ymweldodd Sal â hi yn Unol Daleithiau America.Mae y cyfan yn ran o gwrs sydd rhaid iddynt ei gyflawni trwy ddatblygu, paratoi a chreu cynhyrchiad neu ddarn o waith creadigol a'i gyflwyno fel perfformiad byw neu mewn ffurf arall gyhoeddus. Byddant wedi dychwelyd i Aberystwyth erbyn y daw y Tincer o'r wasg! Gellir dilyn y daith ar y blog http://maccy1415.tumblr.com/



# Myfyrdod y Pasg

Y Pasg yw gŵyl ganolog yr Eglwys Gristnogol, gŵyl sy'n cyhoeddi goruchafiaeth a choncwest, gorfoledd a gobaith - "Yr Iesu a gyfododd - efe a gyfododd yn wir. Ond efallai nad yw'r digwyddiad bellach yn creu ynom ni'r rhyfeddod a'r cyffro a brofwyd gan y tystion cynnar hynny - y gwragedd a'r disgyblion a ddaeth yn fore at y bedd a'i ganfod yn wag - y cwmni a'i gwelodd mewn goruwch ystafell; y ddau a fu'n cyd-gerdded gydag ef ar ffordd Emaus a'r saith pysgotwr yna a wnaeth ei gyfarfod ar draethell yng Ngalilea. Mae'r canrifoedd rywsut wedi dod rhyngom ni â'r digwydd ac o ganlyniad mae'r wefr a'r rhyfeddod i lawer bellach wedi pylu.

"Pwy fyth a gwyd o farwol glwy' a chydio eilwaith yn ei dasg?" yw cwestiwn Rhydwen Williams yn ei gerdd

Ond tystio i wirionedd a wna'r Pasg, nid tybiaeth, na breuddwyd, na ffantasi ond ffaith, a honno yn un ffaith ryfeddol a thu hwnt i bob amgyffred. Fod y Crist a groeshoeliwyd ac a fu farw ar brynhawn Gwener y Grog wedi atgyfodi'n fyw ar fore'r Pasg. Ac eto y mae adroddiadau'r Testament Newydd am yr atgyfodiad hwnnw yn nodi nad oedd pawb yn rhannu'r argyhoeddiad.

Y mae Mathew yn cloi ei Efengyl drwy sôn am anogaeth yr angel o enau'r bedd gwag i'r disgyblion fynd allan i lecyn mynyddig yng Ngalilea er mwyn cyfarfod â'r Crist Atgyfodedig yno; ac y mae'n sôn fod rhai o blith y cwmni wedi amau mai Ef ydoedd, ond bod y rhelyw wedi credu ac wedi addoli.

Marc sydd â'r cofnod mwyaf cwta a chaled. Mae yntau'n nodi fod y gwragedd o ganfod y bedd yn wag ac o glywed annogaeth yr angel wedi crynu gan ofn ac arswyd, a'u bod wedi ffoi o'r lle – "heb ddweud dim wrth neb." Ond bod rhywun wedi mynd ati yn ddiweddarach i ychwanegu diweddglo mwy gobeithiol i'r cofnod gan nodi fod stori'r atgyfodiad yn wir.

Y mae Luc yn llawer mwy cadarnhaol yn ei adroddiadau yntau am yr atgyfodiad ac er bod elfennau o amheuaeth ac anghrediniaeth yn ei bortread yntau o'r ddau deithiwr i Emaus, a Tomos y disgybl a fethodd yr oedfa, y mae'r elfennau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu wrth i sicrwydd ac argyhoeddiad drechu. Yn nhoriad y bara dros swper yn Emaus daeth Cleopas a'i wraig i gredu ac wrth syllu ar y dwylo a'r ystlys clwyfedig, y mae Tomos yn tystio - "Fy Arglwydd a'm Duw."

Yr un yw'r sefyllfa ym mhennod glo Efengyl Ioan hefyd - bod y disgyblion a oedd yn y cwch wedi methu adnabod ar y cychwyn y gŵr a oedd yn cerdded y traeth ac yn sblasio ei draed yn y trochion yn y bore bach - ond yna yn gweld ac yn credu, ac yn rhannu brecwast ag Ef.

Yr oedd yn arferiad gan seiri gwlad Palesteina wedi iddynt gwblhau eu gwaith i gymryd disgyl o ddŵr a golchi eu dwylo a'u sychu gyda darn o liain. Yna fe blygwyd y lliain a'i osod ar y gwaith a gwblhawyd. Y lliain oedd y marc dilysrwydd - y "trade mark" ac yn arwydd i bwy bynnag a fyddai'n archwilio'r gwaith fod y dasg wedi ei chwblhau.

Ar fore'r Pasg darllenwn fod Pedr wedi mynd i mewn i'r bedd a gweld yno'r llieiniau wedi eu plygu a'u gosod, ac y mae tystiolaeth Efengyl Ioan yn nodi - "Fe welodd ac fe gredodd." Roedd gwaith Crist o gymodi'r byd wedi ei gwblhau. Dyna yw marc dilysrwydd y Pasg, dyna yw ei neges rymus i'r byd.

**Peter M. Thomas**

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

y tincer

# Colofn Enwau Lleol

Ym mhen ucha Cwmrheidol ceir tŷ o'r enw *Plwca* (neu *Blas Plwca* fel y'i adnabyddir erbyn hyn) ac ar Afon Rheidol gerllaw, mae *Pompren Plwca*.

Ond beth yw ystyr a tharddiad y gair *plwca*?

Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru mae'n golygu 'baw, llaid, llaca, neu glai', ac awgrymir cysylltiad posibl â'r gair Saesneg tafodieithol *plucky* 'heavy, clogging, adhesive'. Gellir casglu felly bod *Plwca*, pan fathwyd yr enw, yn lle budr neu fwdlyd.


Digwydd *plwca* mewn amryw enwau lleoedd yn y De, megis *Tafarn Plwca* (SN354193) i'r gorllewin o Gaerfyrddin, *Plwca Dafydd* (ST053767) i'r gogledd-ddwyrain o'r Bont-faen, *Pwllyplwca* (ST236805) yn Llaneirwg, a *Chaban Plwca* a leolid gynt ar y ffin rhwng maenor Llys Tal-y-bont ac ardal Mynachdy yng Nghaerdydd.

Dengys tystiolaeth hefyd mai *Heol y Plwca* oedd hen enw *City Road* yng Nghaerdydd.

Ond gellir dwyn cymhariaeth ddiddorol arall rhwng *Plwca*, Cwmrheidol, a *Heol y Plwca*, Caerdydd. Daw'r enghraifft gynharaf o'r enw *Plwca*, Cwmrheidol, o lawysgrifau Cwrt Mawr yn 1661 lle caiff ei nodi fel *Plwka Bydir* (Iwan Wmffre: *The Place-names of Cardiganshire*, 2004, t. 1060). Enw llawn *City Road*, Caerdydd, oedd *Heol Plwca Halog*, gyda'r ansoddair *halog* yn golygu 'budr, brwnt, llygredig'. Dyma ddau le neilltuol o fudr neu fwdlyd felly!

**Angharad Fychan**

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru



© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2015). All rights reserved. (1980s).

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Ers tair blynedd nawr, rwy' wedi bod yn ffodus i fod yn lefarydd fy mhlaid dros iechyd. Mae hyn yn sicr wedi rhoi cyfle i mi weld y problemau o fewn ein gwasanaeth iechyd, ond hefyd i gwrdd â llawer o staff, gofalwyr a grwpiau gwirfoddol sy'n gwneud gymaint yn ein cymuned. Dros y mis diwethaf, cwrddais â meddygon, ymchwilwyr sydd ar flaen y gad yn datblygu triniaethau newydd i gancr, a chymdeithasau sy'n ymwneud â phynciau mor amrywiol a phwysig ag MS ac iechyd meddwl.

Ond yn fwy na dim, mae'r rôl wedi bod yn gyfle i mi ddadlau'r achos dros yr angen i gael model gwahanol i'r gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Yn gynyddol, mae rhai o gynrychiolwyr y proffesiwn meddygol yn pwysleisio'r angen i arbenigwyr i weithio mewn unedau mawr, sy'n trin cannoedd o gleifion gyda'r un math o salwch y flwyddyn, er mwyn datblygu eu sgiliau. Gallaf ddeall y ddadl, ond o weithredu polisi fel yma i'r eithaf, byddai gwasanaethau gwledig yn cael eu canoli fwyfwy mewn ffordd hollol annerbyniol.

Mae'n rhaid cael cyfundrefn wahanol, fwy hyblyg, mewn ardaloedd fel Ceredigion. Dyna pam yr wyf mor falch fod Adroddiad Longley ddiwedd y llynedd wedi cydnabod hynny. Ar ôl cymryd tystiolaeth eang o Geredigion, amlinellodd y math o fodelau gwahanol y gellid eu dilyn, a rhoddodd weledigaeth o wasanaeth iechyd modern, a fyddai'n integreiddio gofal meddygol a chymdeithasol, yn cryfhau gwasanaethau cynradd a lleol, ac yn rhoi lle canolog i Ysbyty Bron-glais.

Y dasg yn awr yw sicrhau fod y weledigaeth hon yn cael ei gweithredu. Newyddion calonogol oedd penodiad cyd-gadeiryddion i arwain y corff newydd fydd yn cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth – Dr. Ruth Hall y cyn Swyddog Meddygol Cenedlaethol, a Jack Evershed sydd wedi bod yn ymgyrchydd cryf dros iechyd yng Ngheredigion ers blynyddoedd. Mae dipyn o waith o'u blaenau, ond gobeithiaf dros y flwyddyn nesaf y gwelwn ddatblygu model newydd o ysbyty cyffredinol wledig ym Mron-glais, ymgais wirioneddol i ddelio efo'r problemau recriwtio staff meddygol, bwrw ati gyda chynllun Cylch Caron, cychwyn ar Ysbyty newydd Aberteifi gyda'r cyfleusterau y mae'r gymuned eu heisiau, ac integreiddio gofal cymunedol ar draws y sir.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**

**2.00 Mawrth**

22 John Roberts

29 Goronwy P. Owen

**Ebrill**

5 Oedfa'r Ofalaeth y Pasg

12 Adrian P. Williams

19 Bugail

26 Lyndon Lloyd

### Eisteddfodol

Cafodd Siân a Megan, Llain y Felin, Cefn-llwyd, lwyddiant yn Eisteddfod Dydd Gŵyl Ddewi Ysgol Penrhyn-coch yn ddiweddar. Daeth Siân yn drydydd yn y llefaru a daeth Megan yn drydydd ar y piano. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy.


Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

## llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.**
**Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**




Enid a Gerald Morgan – yr awdur, cyn-brifathro Ysgol Penweddig a'r darlithydd Gerald Morgan ddewiswyd eleni i arwain gorymdaith Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth.



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

# Mrs Nest Davies

Ar Ionawr 12fed eleni bu farw Nest Davies, Nant Gwyn, Dolau, yn 91 oed. Hi oedd y pumed o chwe phlentyn Arthur ac Ann Morgan Pwll-glas. Roedd Nest yn un o'r bobl mwyaf di-lol y gallech chi gwrdd â nhw - wastad yr un fath wrth bawb, ym mhob sefyllfa, byth yn digio nac yn dal dig, a phob amser yn barod ei chymwynas. Roedd hi'n batrwm o berson cytbwys ac eangfrydig, yn fy ngolwg i yn fy arddegau canol. Elwais ar lawer i gyngor doeth ganddi.

Roedd hi'n amryddawn iawn, wedi graddio mewn gwyddoniaeth o goleg Aberystwyth, yn artistig wrth natur fel ei mam o'i blaen – roedd ganddi baentiadau gan ei mam wedi eu fframio ar y wal - ac roedd cerddoriaeth ym mêr ei hesgyrn.

Gan ei bod hi'n amser rhyfel pan raddiodd cafodd fynd ar ei hunion i'r Amgueddfa Wyddoniaeth yn Llundain i hyfforddi i fod yn entymolegydd i adnabod yr holl gynrhon a phethau bychain eraill sy'n gallu difetha bwyd. Oddi yno fe aeth i Avonmouth i gadw llygad ar burdeb y cargos o lafur a gwenith a ffrwythau a siwgr a ddoi i mewn i'r wlad – mae hi'n adrodd yr hanes hwnnw'n ddifyr yn y llyfryn *Atgofion Amser Rhyfel* (Capel y Garn, 20???). Yn ôl ei thystiolaeth yn yr ysgrif honno, y cyfle a gafodd yn Llundain a Bryste i glywed cerddorion uchelfri yn perfformio, yn unigolion ac yn gerddorfeydd, a ddihunodd ei diddordeb a'i chariad at gerddoriaeth, er ei bod hefyd, wrth gwrs, yn etifedd i'r holl weithgaredd cerddorol oedd yn digwydd yn yr ardal a'r capel yn ystod ei phentyndod.

Ar ôl y rhyfel priododd â Lyn Davies a oedd yn yr awyrlu, a gwneud cartref iddyn nhw yn yr ardal hon. Ganwyd iddyn nhw dri o blant – Rhys, Ann ac Arthur Gwyn – a'r tri ohonyn nhw'n meddu ar yr un gallu cerddorol â'u mam, a pha ryfedd gan eu bod wedi eu magu yn ei sŵn. Ei dymuniad pan oedd hi'n ifanc oedd cael chwarae'r ffidil gyda'r grŵp oedd yn dysgu o dan Alwyn Jones yn y festri – tua deg ohonyn nhw yn fechgyn ac yn ferched yr un oed â hi. Parhaodd hyd ddiwedd ei hoes i goleddu teimlad o anfodlonrwydd na chafodd wneud hynny. Fodd bynnag roedd hi'n bianydd medrus, wedi ei dysgu gan J T Rees; yn nes ymlaen prynodd delyn a chael gwersi gan Alwena Roberts. Bu'n canu soprano yng nghôr Cymdeithas Gorawl Aberystwyth hyd ei blynyddoedd diwethaf.

Bu'n gweithio am gyfnod yn y Fridfa Blanhigion ym Mhlas Gogerddan; yna ddechrau'r chwedegau penderfynodd hyfforddi i fod yn athrawes a chael blas mawr ar y gwaith. Mewn ysgolion cynradd y bu'n dysgu a cherddoriaeth oedd ei phrif faes. Mae gen i gof amdani droeon yn disgrifio gyda chryn frwdfrydedd y broses o ddenu plant i greu miwsig, weithiau gydag offerynnau go annisgwyl.

Bu'n ffyddlon i Gapel y Garn gydol ei hoes, y capel yr oedd ei thad-cu William Morgan a'i gefnder T J Mogan wedi bod yn gyd-weinidogion rhan-amser arno. Bu'n bianydd ac yn organydd yno am ran helaeth o'i bywyd, ac yn drefnydd y blodau nes iddi fethu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallaf ei chofio yn pwysleisio mor bwysig yw harddwch gweledol i wneud i bobl deimlo'n well. Roedd hynny yn estyn at ddillad yn ogystal â blodau, meddai, a hithau ei hun bob amser mor drwsiadus a llawen ei gwisg - "Dim dim ond er fy mwyn fy hunan ond achos ei fod e'n sionci pobl eraill hefyd."

Bu farw Lyn ei gŵr yn 2001, a Rhys, ei mab hynaf yn 2007.

**Llinos Dafis**



Dau wyddonydd, Nest gyda Steve Jones y genetegydd, mab ei chyfnither, yn 2009

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Cerddorfa
Mynychodd plant o'r ysgol gyngerdd gan y Gerddorfa Ieuenctid yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth ar 10fed o Chwefror. Roedd pob un o'r plant wedi mwynhau gwrando ar y gwahanol offerynnau ac roedd yn bleser gweld wynebau'r plant bach wrth iddyn nhw glywed rhai o'r darnau clasurol o 'Jungle Book' a 'The Lion King'. Diolch i Mr Geraint Evans am drefnu'r digwyddiad.

### Heddlu
Daeth PC Alun Jones i siarad gyda'r plant ar y 11eg o Chwefror. Cafodd plant Cyfnod Sylfaen sgwrs am 'Moddion', cafodd plant Bl 3 a 4 sgwrs am 'Bwlio Seiber' a phlant bl 5 a 6 sgwrs am 'Ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Gwrandawodd y plant i gyd yn dda iawn ar y negeseuon pwysig.

### Gŵyl Offerynnol yr Urdd
Rydym yn hynod o falch o Joshua Williamson-Evans a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth Unawd Pres Bl 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd. Daeth Josh yn ail yn y gystadleuaeth, gan gystadlu yn erbyn plant o bob rhan o Geredigion! Joshua yw'r plentyn cyntaf o Ysgol Craig yr Wylfa i gystadlu yn yr Eisteddfod Offerynnol ers tua 7 mlynedd ac yr ydym i gyd mor falch o'i lwyddiant.

Harddwch
Siriol
Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR





### Peter Karrie
Daeth y canwr enwog Peter Karrie i'r ysgol ar brynhawn Dydd Mercher 25ain o Chwefror i gwrdd â holl blant yr ysgol i ddechrau ymarferion ar gyfer cyngerdd fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Gymunedol y Borth ar 20fed o Fawrth. Bydd y plant yn perfformio ochr yn ochr â seren y West End yn canu rhai caneuon adnabyddus o'r sioe gerdd Oliver. Rydym i gyd yn gyffrous iawn am y gyngerdd. Mae tocynnau sy'n werth £10 yr un ar werth yn awr yn yr ysgol ac mae 40% o'r holl arian a godir yn mynd i'r ysgol. Rwy'n siŵr bod y plant y Cyngor Ysgol eisoes yn cynllunio ar beth y gallant wario'r arian!

### Gwersi Golff
Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael y cyfle i weithio ochr yn ochr hefo Clwb Golff Y Borth y tymor yma. Mae Mr Mark Lewis a'i dîm wedi bod yn dod i'r ysgol ar brynhawn dydd Iau a rhoi gwersi i blant Cyfnod Allweddol 2 ar sgiliau golff.

### Bam Nuttell
Cafodd pob un o'r plant yn nosbarth Cyfnod Allweddol 2 y cyfle i ddylunio a chreu poster am yr amgylchedd ar gyfer cwmni Bam Nuttell. Daeth Mr Richards allan i'r ysgol ar ddydd Gwener 27ain o Chwefror i gyflwyno'r enillwyr gyda'u gwobrau. Rydym yn falch o gyhoeddi mai Glyn Clift a Mackenzie Byrne oedd yr enillwyr lwcus ac mae'r ddau wedi derbyn tocyn llyfr gwerth £20.





### Eisteddfod yr Urdd
Rydym yn falch iawn o'r plant sydd wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Fe wnaeth Harvey Perkins gystadlu ar yr unawd canu Bl 5 a 6 a gwnaeth grŵp o 5 plentyn sef Louis Yabsley, Reece Steen, Glyn Clift, Phoebe Hinks a Eliza Williams gymryd rhan yn y gystadleuaeth dawnsio disgo. Roedd y gystadleuaeth yn gyffrous iawn eleni ac rydym yn hynod o falch o'u cyflawniad ac yn diolch iddynt am gynrychioli eu hysgol mor ardderchog.

MYNACH HANDYMAN & GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau** a **Garddio** hefyd
**Gwasanaeth Cynnal** a **Chadw**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792457816 . 01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Ysgol Penrhyn-coch

### Yr Urdd

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yng ngweithgareddau'r Urdd. Cafodd y tîm Gymnasteg o dan hyfforddiant Miss Cory y 3ydd safle yn y rownd genedlaethol a chafodd ei chynnal ym Mhlas-crug.
Gŵyl Offerynnol. Bu Sion James Bl 6 yn cynrychioli'r ysgol wrth chwarae....
Cafwyd gwobrau arbennig yng Nghystadleuaeth Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion dyma'r canlyniadau:
1af-Gwaith Creadigol
Tecstiliau 3D Molly Ralphs Bl4.
Print Lliw Gwenan Hedd Jenkins
Cyfres o brintiau Sian Fflur.
Dylunio a Thechnoleg. Gwenan Hedd.
Dylunio a Thechnoleg-Sian Fflur
2il-Gwaith Crosio - Carys Angharad James ,
Print Monocrom-Sian Fflur Jenkins,
Cyfres o brintiau-Gwenan Hedd
3ydd-Print Lliw-Sian Fflur Jenkins

### Cystadlaethau Llwyfan

Cipiwyd y wobr 1af gan y grŵp dawnsio hip-hop. Bydd y rownd nesaf yn Felin-fach!

Cafodd Côr yr Ysgol y 3ydd safle a da iawn i'r parti llefaru ac i'r ymgom. Daliwch ati.

### Diwrnod y Llyfr

Roedd yna gymeriadau lliwgar a doniol yn yr adran Cyfnod Sylfaen. Buom yn brysur trwy'r dydd yn mwynhau gweithgareddau pobl Mr a Miss!

### Taith addysgiadol CA2

Teithiodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol ynghyd â disgyblion Ysgol Pen-llwyn i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn ddiweddar. Pwrpas yr ymweliad oedd i dderbyn gwybodaeth am sut y gall llifogydd ddigwydd ynghyd â'r effaith a gânt ar gymunedau ar draws y byd. Arweinydd y sesiwn oedd Hywel Griffiths o'r Brifysgol. Gwelwyd lluniau a fideos o lifogydd lleol a rhyngwladol. Trafodwyd sut y bu i'r llifogydd hyn ddigwydd. Ar ddiwedd y sesiwn cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ynghyd â chael sgan 3D o'r dosbarth wedi ei dynnu. Diolch i Hywel Grifftihs am y croeso arbennig. Ar ôl cinio teithiodd pawb i lawr i'r Borth. Tra yno, cafwyd cyfle i gerdded ar hyd y traeth a chael gweld y gwaith a wnaethpwyd yno i atal y môr rhag gorlifo a chreu llifogydd yn y pentref.

### Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd ein Eisteddfod flynyddol ar Chwefror yr 27ain. Ein beirniaid eleni oedd Miss Mared Jones, Swyddog C.FF.I Ceredigion yn y Llefaru a Bethan Ruth wrth y cerdd. Diolch i Mrs Heddwen Evans hefyd am gyfeilio trwy'r dydd! Bu'r cystadlu yn frwd trwy'r dydd rhwng Stewi a Seilo ond Seilo cipiodd y darian! Da iawn chi ! Enillydd y Gadair eleni oedd Sion James o dîm Seilo. Ei dasg oedd ysgrifennu darn o farddoniaeth ar y thema "Mordaith." Llongyfarchiadau iddo.










GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Ysgol Pen-llwyn

### Parêd Dydd Gŵyl Dewi

Ar Chwefror 28ain cafodd y plant y cyfle i fod yn rhan o'r Parêd mawreddog yn Aberystwyth i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Llŷr a Mia gafodd y fraint o gario'r faner arbennig gyda logo'r ysgol i'w weld yn glir. Diolch i bawb wnaeth gefnogi.

### Ymweliad 'Maint Cymru'

Cafwyd prynhawn o hwyl gyda Nigel Little o 'Maint Cymru'. Gyda'i ddawn arbennig o gyflwyno, llwyddodd i ddysgu ffeithiau diddorol a phwysigrwydd fforestydd glaw i Ddosbarth 2. Dysgodd Dosbarth 1 am fforestydd eliffantod drwy weithgareddau a gêmau diddorol. Diolch i Mrs Davies am drefnu'r ymweliad.

### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Ysgol

Cafodd y plant gyfle i wisgo eu gwisg Gymreig ar Fawrth yr 2il yn yr Ysgol er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mwynheuodd y plant amryw o weithgareddau wrth ddathlu a dysgu am ein nawddsant.

Y diwrnod canlynol cafwyd Eisteddfod yr Ysgol. Roedd neuadd yr Ysgol yn orlawn gyda chystadleuwyr a rhieni. Cafwyd gwahoddiad arbennig i'r Cylch Meithrin a chanodd y plant yn arbennig o dda. Eleni roedd y plant wedi eu rhannu i lysoedd, Rheidol a Melindwr. Bu'r plant yn cystadlu'n unigol ac mewn partïon wrth ganu, llefaru, gwaith celf a llawysgrifen. Melindwr oedd enillwyr y cystadlaethau llwyfan ond llwyddodd Rheidol i gipio'r tlws gwaith cartref a chelf. Cafwyd lluniaeth arbennig o gawl a bara brith hanner ffordd drwy'r cystadlu gan Cathy. Diolch i bawb am helpu i wneud yr Eisteddfod yn ddathliad arbennig!

### Eisteddfod yr Urdd

Ermai ond pythefnos o ymarfer gafwyd, llwyddodd y parti Unsain i berfformio yn arbennig o dda yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar nos Iau 5ed o Fawrth. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i gystadlu ar y llwyfan ac yn edrych ymlaen at gystadlu yn y dyfodol. Hoffai Mr Roberts ddiolch yn fawr i'r plant am eu gwaith caled mewn amser byr iawn! Da iawn chi i gyd!

### Diwrnod y Llyfr

Er mwyn dathlu diwrnod y llyfr cafwyd sesiwn stori a drama gan Louise Herschel. Cafodd y plant eu cludo yn ôl i'r Oesoedd Canol gan ddysgu beth oedd yn mynd ymlaen mewn cestyll oesoedd yn ôl. Cafodd dosbarth 1 hwyl yn dewis hoff lyfrau a gweithgareddau amrywiol.

### Taith yr afon

Teithiodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol ynghyd â disgyblion Ysgol Penrhyn-coch i'r Brifysgol yn Aberystwyth yn ddiweddar. Pwrpas yr ymweliad oedd i dderbyn gwybodaeth am sut y gall llifogydd ddigwydd ynghyd â'r effaith a gânt ar gymunedau ar draws y byd. Arweinydd y sesiwn oedd Hywel Griffiths o'r Brifysgol.

Gwelwyd lluniau a fideos o lifogydd lleol a rhyngwladol. Trafodwyd sut y bu i'r llifogydd hyn ddigwydd. Ar ddiwedd y sesiwn cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ynghyd â chael sgan 3D o'r dosbarth wedi ei dynnu. Diolch i Hywel Grifftihs am y croeso arbennig. Ar ôl cinio teithiodd pawb i lawr i'r Borth. Tra yno, cafwyd cyfle i gerdded ar hyd y traeth a chael gweld y gwaith a wnaethpwyd yno i atal y môr rhag gorlifo a chreu llifogydd yn y pentref.











# Ysgol Rhydypennau

## Twmpath

Ar y 26ain o Chwefror, trefnwyd einTwmpath blynyddol yn Neuadd yr ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, gwobrau, gwisg ffansi, raffl a digon o fwyd a diod. Diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i Erwyd a Bryan eleni eto am gynnal noson mor ddifyr.

## Ymweliadau

Mae'r prysurdeb yn parhau yn yr ysgol; fe aeth plant blynyddoedd 3 i 6 ar ymweliad i Gwmrheidol yn ddiweddar er mwyn dysgu am ynni cynaladwy fel rhan o'n gwaith thema. Ar safle Statkraft, cafodd y plant gyfle i weld ffilm am ddatblygiad argae Nant-y-Moch hanner canrif yn ôl a threuliwyd cyfnod yn y pwerdy yn dysgu sut mae grym dŵr yn cynhyrchu trydan. Yn ystod y dydd hefyd bu'r plant yn brysur yn dylunio posteri trawiadol yn ymwneud â ynni cynaladwy. Hoffai'r ysgol ddiolch i staff Statkraft am eu cymorth cyn ac yn ystod yr ymweliad.

Wythnos yn ddiweddarach fe aeth bwyddyn 1 a 2 i'r Lolfa yn Nhal-y-bont fel rhan o ddathliad Diwrnod y Llyfr. Fe welodd y plant y peiriannau mawr, swnllyd; gwelwyd clawr newydd llyfr *Dona Direidi* a chafwyd cyfle hefyd i gerdded o gwmpas y warws anferthol. Hoff beiriant y plant oedd y peiriant gludo. Diolch yn fawr iawn i'r Lolfa.

Yn unol â'r dathliadau hyn bu Blwyddyn 5 a 6 yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ffilmio pwt o newyddion ar gyfer rhaglen 'Heno'; efallai i chi ei gweld hi. Cafodd y plant gyfle i weld llawysgrifau hynafol y Llyfrgell cyn mwynhau arddangosfa o fywyd a llenyddiaeth T.Llew Jones a fyddai'n dathlu ei ganmlwyddiant eleni. Bu'r plant yn datgan eu barn am nofelau a cherddi T Llew Jones a ffilmiwyd rhai ohonynt yn mynegi eu teimladau am yr awdur enwog.



Dathlu Diwrnod y Llyfr.

Trannoeth fe ddaeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau o lyfrau i ddathlu'r ŵyl ymhellach.

## Chwareon

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm hoci yn dilyn tymor llwyddiannus iawn. Mae'r ddau dîm wrthi'n ddiwyd ar faes astro'r Brifysgol ar nosweithiau Gwener fel arfer ac maent wedi profi canlyniadau ardderchog yn ystod y tymor. Diolch i Mr Rees am roi o'i amser yn hyfforddi'r tîm pob Nos Iau ac wrth gwrs am drefnu'r timau ar gyfer gemau nos Wener.

## Clwb Cant

Yn ystod y Twmpath cyhoeddwyd enillwyr fis Mawrth. Dyma'r canlyniad:
1af - £25 - Neve Jones, Y Borth


Recordio ar gyfer rhaglen 'Heno'.

2il - £15 - Gwawr Morgan, Pwll-glas.
3ydd - £10 - Ted Sandford, Llanfarian.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Ymweliad Cwmrheidol.


Ymweliad i'r Lolfa.

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu wrthi'n lliwio'r plant yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd eich gwaith yn lliwgar dros ben. Dyma nhw: Anest, Bow Street; Elen, y Borth; Gwennan, Aber-ffrwd; Lisa, y Borth; Lois ac Iwan, Machen, ac Owen Jac, Aberystwyth.

Dy enw di, Gwennan, ddaeth o'r het y tro hwn – llongyfarchiadau mawr.


Gwelais sawl un ohonoch yn y Parêd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth, yn chwifio baneri ac yn mwynhau'r hwyl. Diwrnod i'w gofio! A beth am ddathlu Ddiwrnod y Llyfr? Roedd yna glown, dyn tân, môr-leidr, tylwythen deg, siwperman, gwrach … bob math o gymeriadau yn Ysgol Rhydypennau, ac yn sawl ysgol arall, dwi'n siŵr.

Ac mae dathliad pwysig arall ar fin dod, sef y Pasg. Ydech chi wedi cael ŵy siocled eto? Mae'r ŵy, wrth gwrs, yn arwydd o fywyd newydd. Cofiwn fod Iesu Grist wedi marw ar y groes, ond rydyn ni'n dathlu ei fod wedi dod yn fyw eto. Mae hen hen stori'n dweud os gwnewch chi gadw ŵy sy'n cael ei ddodwy ar ddydd Gwener y Groglith am fil o flynyddoedd (ych-a-fi!), bydd y melynwy'n troi'n ddiamwnt! A beth am yr hen goel fod person sy'n darganfod dau felynwy o fewn yr un ŵy ar Gwener y Groglith yn troi'n gyfoethog iawn. Mewn sawl gwlad, mae pobl yn dathlu'r Pasg drwy baentio ac addurno wyau. Y mis hwn, felly, beth am liwio'r wyau Pasg? Pa un fyddech chi'n hoffi ei fwyta?



Gwennan

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Ebrill. Ta ta tan toc, a mwynhewch eich ŵy siocled, a'ch gwyliau Pasg!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 377 | MAWRTH 2015